



Grant Datblygu Disgyblion (GDD) 2026–27

Crynodeb clir i rieni, gofalwyr a'r gymuned

Beth yw'r GDD? Grant gan Lywodraeth Cymru yw'r Grant Datblygu Disgyblion. Ei bwrpas yw lleihau effaith tlodi ar gyrhaeddiad a helpu dysgwyr i wneud cynnydd mewn dysgu, presenoldeb, lles a dyheadau.

Yn Ysgol Eifionydd, rydym yn targedu'r cyllid at y disgyblion sydd â'r angen mwyaf, gan ddefnyddio cefnogaeth uniongyrchol i ddisgyblion a dysgu proffesiynol i staff.

Ein dyraniad ar gyfer 2026–27

£54,050 Cyfanswm y GDD	355 Nifer y disgyblion	12.7% Yn gymwys i'r GDD
----------------------------------	----------------------------------	-----------------------------------

Mae sail ddyrannu 2026–27 yn cynnwys 45 o ddysgwyr. Disgwylir i tua 20% o holl ddisgyblion yr ysgol gael cymorth uniongyrchol sylweddol drwy un neu fwy o elfennau'r cynllun dros y flwyddyn, er y bydd y garfan yn newid yn ôl angen.

Sut bydd yr arian yn cael ei ddefnyddio?

Gwariant	Swm	Beth mae hyn yn ei olygu i ddisgyblion?
Tri aelod staff rhan-amser wedi'u targedu	£31,840 (tua 59%)	• Uwch Gymhorthydd: llythrennedd a chwricwlwm amgen • Aelod staff lles: ELSA a chefnogaeth emosiynol • Swyddog Cyswllt Teuluoedd: presenoldeb, ymgysylltu, cyngor a chysylltu â gwasanaethau
Dysgu proffesiynol a hyfforddiant staff	£22,210 (tua 41%)	Hyfforddiant wedi'i dargedu ar lythrennedd ac addysgu o ansawdd uchel; lles a hunanreoleiddio; presenoldeb ac ail-ymgysylltu; gweithio gyda theuluoedd; deall effaith tlodi; mentora a chodi dyheadau.

Beth rydym am wella yn 2026–27?

Byddwn yn defnyddio data clir i weld a yw'r GDD yn gwneud gwahaniaeth. Dyma'r prif ddangosyddion y byddwn yn eu monitro:



Maes	Beth fyddwn yn ei fesur?	Dangosydd llwyddiant
Llythrennedd	Sgoriau safonedig Darllen Cenedlaethol Cymraeg a Saesneg ar gyfer disgyblion sy'n derbyn cymorth.	Y mwyafrif o'r disgyblion a dargedir yn gwneud cynnydd ac yn cau'r bwlch tuag at y norm cenedlaethol o 100.
Presenoldeb	Presenoldeb unigol disgyblion sy'n derbyn cefnogaeth sylweddol gan y Swyddog Cyswllt Teuluoedd.	Cynnydd cyfartalog o tua 3 pwynt canran ym mhresenoldeb y disgyblion hyn, ynghyd â llai o absenoldeb parhaus.
Lles ac ELSA	Llais y disgybl, cofnodion ELSA ac ymgysylltiad â dysgu.	Tystiolaeth o well hunanreoleiddio, gallu i ofyn am gymorth ac ymgysylltiad mwy cadarnhaol â'r ysgol.
Teuluoedd	Cofnodion cyswllt, camau gweithredu a chyfeirio at wasanaethau.	Mwy o deuluoedd targed yn ymgysylltu'n rheolaidd a gwell cyfathrebu rhwng y cartref a'r ysgol.
Dysgu proffesiynol	Tystiolaeth bod hyfforddiant yn newid arfer staff yn y dosbarth a'r ddarpariaeth.	Gwell cysondeb mewn arferion sy'n cefnogi llythrennedd, presenoldeb, lles ac ymgysylltiad.
Cyrhaeddiad TGAU	Sgôr Cap 9 yr ysgol yn 2025 a 2026 fel gwaelodlin.	Sgôr Cap 9 2027 o leiaf 6 phwynt yn uwch na'r sgôr yn 2026 ac yn 2025, gan ddangos tuedd glir o welliant.

Beth wnaeth y GDD ei gefnogi yn y flwyddyn flaenorol?

Yn ystod y flwyddyn flaenorol defnyddiwyd y GDD i gryfhau cefnogaeth wedi'i thargedu mewn tri maes allweddol:

- grwpiau targed i wella darllen a deall yn y Gymraeg a'r Saesneg;
- cymorth unigol ychwanegol i ddisgyblion bregus ar les emosiynol, cymdeithasol a chorfforol;
- staff arbenigol i helpu'r ysgol i adnabod anghenion yn gynharach a chynnig cefnogaeth ar lythrennedd, lles a phresenoldeb.

Mae'r model hwn wedi llywio cynllun 2026–27. Yn ystod y flwyddyn hon byddwn yn cryfhau'r gwerthuso drwy ddefnyddio'r dangosyddion mesuradwy uchod.

Sut byddwn yn sicrhau bod y grant yn gwneud gwahaniaeth?

- Bydd Arweinydd y GDD a'r Tîm Rheoli yn adolygu'r cynllun o leiaf unwaith bob tymor.
- Byddwn yn edrych ar gynnydd disgyblion, nid faint o weithgaredd neu hyfforddiant a gynhaliwyd yn unig.
- Bydd y Corff Llywodraethol yn derbyn diweddariadau ar effaith a gwerth am arian.
- Bydd blaenoriaeth yn cael ei rhoi i ddysgwyr sy'n gymwys i'r GDD ac i ddysgwyr eraill y mae tystiolaeth yn dangos eu bod yn wynebu rhwystrau sy'n gysylltiedig â thlodi.

Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i ysgolion gyhoeddi datganiad GDD blyneddol ar eu gwefan sy'n egluro sut mae'r grant yn cael ei ddefnyddio a'i effaith. [Canllaw Llywodraeth Cymru i'r Grant Datblygu Disgyblion](#)